



GRŴP SWYDDOGION CYNLLUNIO  
GOGLEDD CYMRU • NORTH WALES  
PLANNING OFFICERS' GROUP

*Datganiad i'r Wasg*

## **STRATEGAETH TIR CYFLOGAETH RHANBARTHOL AR GYFER GOGLEDD CYMRU**

**Mae gan economi Gogledd Cymru ddarpariaeth ddigonol o dir cyflogaeth strategol sy'n gallu diwallu anghenion buddsoddwyr, yn ôl canlyniadau astudiaeth ddiweddar.**

Comisiynodd Grwp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru (NWPOG) sy'n cynnwys holl Brif Swyddogion Cynllunio yng Ngogledd Cymru, ymgynghorwyr Arup i ymchwilio i gyflenwad ac argaeledd safleoedd cyflogaeth strategol yng Ngogledd Cymru ar gyfer yr ugain mlynedd nesaf. Ychydig o sylw fydd darpar fuddsoddwyr yn ei gymryd o ffiniau awdurdodau lleol a chan fod safleoedd cyflogaeth mawr yn gwasanaethu ardal ddaearyddol ehangach, teimlai'r grwp ei bod yn bwysig i weithio ar y cyd ar draws Gogledd Cymru. Gofynnwyd i'r astudiaeth hefyd i nodi bylchau yn y ddarpariaeth o dir cyflogaeth yn nhermau ansawdd, maint a lleoliad ac i roi syniad bras o ble dylid ehangu safleoedd.

Daeth yr adroddiad, "Strategaeth Tir Cyflogaeth Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru", i'r casgliad fod gan economi Gogledd Cymru ddarpariaeth ddigonol o dir cyflogaeth strategol sy'n gallu diwallu anghenion buddsoddwyr, a dylai pob awdurdod gynnwys polisiau yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol fyddai'n ddigon hyblyg er mwyn cefnogi rhaglen neu ddarpar fuddsoddwr fyddai â gofynion penodol am safle. Mae hefyd yn tynnu sylw at yr angen i weithio ar lefel genedlaethol er mwyn hyrwyddo safleoedd i ddarpar fuddsoddwyr a sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod cryfderau allweddol y rhanbarth a'r cyfleoedd i glystyru o amgylch safleoedd strategol sy'n bodoli eisoes.

Ar ran NWPOG, dywedodd Jonathan Cawley, Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a swyddog arweiniol y prosiect:

"Mae'n bwysig i'r system gynllunio fedru clustnodi digon o dir yn y lleoliad cywir er mwyn galluogi cyfleoedd buddsoddi a swyddi newydd ac i gydnabod bod safleoedd strategol mawr yn gwasanaethu ardal sy'n cael ei wasanaethu gan fwy nag un awdurdod lleol. Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i osgoi dyblygu darpariaeth safleoedd ac i nodi unrhyw waith pellach sydd ei angen i ddod â'r safleoedd gorau ymlaen ar gyfer datblygu'n ddi-oed. Dengys yr astudiaeth hon yn glir bod safleoedd cyflogaeth strategol digonol ar gael os gellir denu darpar fuddsoddwyr, gan gystadlu ag ardaloedd eraill yng Nghymru a'r DU. Nid yw'r system gynllunio yn llesteirio twf economaidd a byddwn yn sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn wir yn y dyfodol. "

## **Diwedd**

### **Nodyn i olygyddion**

1. Mae'r Grwp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru (NWPOG) yn cynnwys Prif Swyddogion Cynllunio Cyngorau Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Dinbych, Wrecsam a Fflint, ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
2. Cylch gorchwyl y grwp yw trafod materion cynllunio cyfredol sy'n gyffredin i Ogledd Cymru, e.e. edrych ar brosiectau ar y cyd yn y rhanbarth.
3. Mae'r grwp yn cydnabod, mewn cyfnod o doriadau yn y sector cyhoeddus, mae'n synhwyrol i weithio ar y cyd ar faterion cyffredin er mwyn arbed adnoddau a rhannu arbenigedd.
4. Ar hyn o bryd mae ceisiadau cynllunio ar gyfer cynigion mwynau yn cael eu trin gan un tîm ar draws Gogledd Cymru ac wedi ei leoli yng Nghyngor Sir y Fflint. Y Cadeirydd presennol yw Andrew Farrow, Prif Swyddog Cynllunio Cyngor Sir y Fflint.
5. Gyda'i gilydd, gwneir saith o argymhellion penodol yn yr adroddiad a gellir eu gweld mewn dogfen gryno, "Dogfen Strategaeth Tir Cyflogaeth Rhanbarthol ar gyfer Dogfen Strategaeth Gogledd Cymru" sydd ar gael yn
6. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Jonathan Cawley, 01766 770274.